



DATRYYS CODAU

Yn y gweithgaredd hwn byddwch yn edrych ar ffyrdd gwahanol o ddatrys neges wedi'i hamgryptio.

BETH DDYLECH CHI EI WNEUD

- Mae rhan o neges wedi'i rhyng-gipio i'w gweld isod. Mae un llythyren wedi cael ei dadgryptio'n barod i chi.

Allwch chi ganfod gosodiad y dryswr a gorffen dadgryptio'r neges?

Neges wedi'i rhyng-gipio	U	D	L	Q
Neges wedi'i dadgryptio				N

- Ysgrifennwch air arall sy'n gallu cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r tywydd. Dewiswch eich gosodiad eich hun ar gyfer y dryswr ac ewch ati i amgryptio'ch gair.

Newidiwch negeseuon wedi'u hamgryptio gyda'ch partner. Pwy all dorri'r amgryptiad yn gyntaf? (Defnyddiwch eich dryswr i helpu.) Pan fyddwch chi'n amau eich bod chi'n gwybod y gosodiad, holwch eich partner i weld a ydych chi'n gywir.

- Yn ogystal ag edrych am eiriau cyffredin (ee mewn adroddiad tywydd) mae torwyr codau'n edrych i weld pa mor aml mae llythrennau arbennig yn codi.

Y llythyren E sy'n cael ei defnyddio fwyaf yn y Saesneg. Isod mae neges wedi'i rhyng-gipio. Penderfynwch pa lythyren sy'n cynrychioli E,

Neges wedi'i rhyng-gipio	O	A	J	Z	-	I	A	Z	E	Y	W	H	-	O	Q	L	L	H	E	A	O
Neges wedi'i dadgryptio																					

ac yna ewch ati i ddatrys gosodiad y dryswr er mwyn dadgryptio'r neges (mae dash yn dynodi bylchau rhwng geiriau).

- Yn ystod yr Ail Ryfel Byd, roedd y ddwy ochr yn defnyddio peiriannau â dryswyr a oedd yn troi (rotorau) i amgryptio'u negeseuon.
 - Dewiswch frawddeg tri neu bedwar gair o hyd. Peidiwch â dweud y gair wrth eich partner.
 - Gosodwch eich dryswr ar y gosodiad o'ch dewis ac amgryptiwch y llythyren gyntaf (gwnewch nodyn o'r gosodiad).
 - Symudwch y dryswr ymlaen un gosodiad. Amgryptiwch yr ail lythyren gan ddefnyddio'r gosodiad newydd hwn.
 - Symudwch y dryswr ymlaen un gosodiad eto. Defnyddiwch y gosodiad hwn i amgryptio'r drydedd lythyren. Gwnewch hyn nes i chi amgryptio'r neges gyfan.
- Cymharwch eich brawddeg wreiddiol â'r un sydd wedi'i hamgryptio. Allwch chi egluro pam mae defnyddio dryswyr sy'n troi yn gwneud cyfathrebu'n fwy diogel?
- Rhowch eich neges wedi'i hamgryptio i'ch partner. Yr unig wybodaeth ddylech chi ei rhoi i'ch partner yw gosodiad cychwynnol eich dryswr. All ef/hi ddadgryptio'r neges?